Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar Nos Fercher y 9fed o Fehefin 2010 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00yh

Presennol: Y Maer, y Cyng. Chris Parish, y Cyng. Roy Davies, y Cyng. Richard Wallace, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Julia Jones, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Fran Murphy.
Roger Phillips (Clerc y Dref)
Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Charlotte Leadbeater.

Cof 68 / Mehefin / 10 I Ethol Cadeirydd ar y Pwyllgor Cynllunio

Enwebodd y Cyng. Edward Thomas y Cyng. Dawn Wallace fel Cadeirydd. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Christopher Parish. Roedd pawb o blaid. Derbyniodd y Cyng. Dawn Wallace y swydd.

Cof 69 / Mehefin / 10 I Ethol Is Gadeirydd ar y Pwyllgor Cynllunio

Enwebodd y Cyng. Colin Jenkins y Cyng. Edward Thomas fel Is Gadeirydd. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Richard Wallace. Roedd pawb o blaid. Derbyniodd y Cyng. Edward Thomas y swydd.

Cof 70 / Mehefin / 10 Ceisiadau Cynllunio i'w penderfynu

Arwyddodd y Cyng. Dawn Wallace a'r Cyng. Richard Wallace y llyfr mynegiannau o fuddiant ac fe wnaethant adael yr ystafell tra bod y cais cynllunio canlynol yn cael ei drafod.

E/22977 Garej arfaethedig yn 4, Teras Brynawel
Sylw: Oherwydd ei natur sensitif mewn ardal gadwraeth, gofynnodd y Pwyllgor am ymweliad safle a fynychwyd gan y Swyddog Cynllunio a'r Swyddog Cadwraeth.

E/23030 Byrddau tariff ar gyfer maes parcio talu ac arddangos (angen amnewid un arwydd sydd eisoes yn bod ac un arwydd newydd mewn lleoliad newydd), Maes Parcio Heol Cilgant
Sylw: Dim gwrthwynebiad cyhyd â'u bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau cadwraeth.

E/23031 Estyniad un llawr yn y cefn yn 28, Heol Diana
Sylw: Dim gwrthwynebiad

Cof 71 / Mehefin /10 Doedd dim penderfyniadau ynghylch Ceisiadau Cynllunio

Cof 72 /Mehefin /10 Ceisiadau Cynllunio a Dynnwyd yn ôl.

E/22728 I fwyhau'r fynedfa a'r lle parcio gyferbyn i Sŵn y Brain, Heol Cilgant.

Cof 73 / Mehefin/ 10 Doedd dim Apeliadau Cynllunio

Cof 74/ Mehefin /10 Doedd dim materion yn ymwneud â Thrafnidiaeth a Phriffyrdd

Cof 75 / Mehefin / 10 Doedd dim materion yn ymwneud â Goleuadau.

Cof 76 / Mehefin / 10 Adroddiad y Swyddog Technegol

Dywedodd Mr Davies fod plant wedi achosi difrod pellach i Bont y Brenin. Cynigodd y Cyng. Edward Thomas ac eiliodd y Cyng. Richard Wallace bod y Clerc yn ysgrifennu at brifathro Ysgol Tregib, i ofyn am ei gydweithrediad wrth gynghori'r plant i gadw bant oddi wrth y bont. Cynigodd y Cyng. Edward Thomas ac eiliodd y Cyng. Richard Wallace bod y Clerc yn ysgrifennu at CSG i ofyn iddynt i dorri'r glaswellt ar waelod Heol Alan, ger y meinciau. Dywedodd y Cyng. Edward Thomas oherwydd bod y Cyngor wedi cytuno na fyddai'n prynu mainc er anrhydedd i'r Arglwydd Dynevor, cost y plac fyddai £66 plws TAW.
Byddai'r plac yn cael ei osod ar y wal ochr gerllaw'r fynedfa i Barc Penlan.
Gwnaeth y Swyddog Technegol gais am ddiffoddiaduron ychwanegol, i'w defnyddio ar gyfer digwyddiadau awyr agored y Cyngor.
Argymhellodd y Maer fod y cyfarpar ychwanegol canlynol yn cael eu prynu, h.y. blanced dân, diffoddiaduron ewyn, diffoddiaduron powdwr a megaffon. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.
Cytunwyd y byddai 100 o gadeiriau'n cael eu cludo i'w defnyddio ar gyfer y digwyddiad 'Revels in the Park'.
Byddai Mr Davies yn holi Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed p'un ai y gallent baratoi'r cynlluniau angenrheidiol i amnewid y ffenest yn y Siambr.
Roedd Mr Davies wedi derbyn dyfynbris o £168 i drin y Pydredd Such yng nghoridor Neuadd y Sir. Cynigodd y Cyng. Richard Wallace bod y dyfynbris hwn yn cael ei dderbyn ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Chris Parish. Roedd pawb o blaid.

Cof 77 / Mehefin /10 Gohebiaeth

1. Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru. Adolygiad o'r Trefniadau Etholiadol yn Sir Gaerfyrddin. Nodwyd.
2. Llythyr oddi wrth Miss Thirza Swindells mewn perthynas â'r nifer o gerbydau trwm sy'n teithio dros Bont Llandeilo. Byddai'r Clerc yn cydnabod y llythyr ac yn ei anfon i Adran Priffyrdd CSG, LlCC a chopi i Gyngor Cymuned Dyffryn Cennen.
3. Swyddog Goleuadau CSG mewn perthynas â basgedi crog ar byst golau. Pasiwyd yr ohebiaeth ymlaen i is-grŵp Llandeilo yn ei Blodau.

Cof 78/ Mehefin / 10 Doedd dim eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Daeth y cyfarfod i ben am 7.55yh.